WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Y Cynghorydd Dyfed Edwards – Arweinydd
Mr Harry Thomas – Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Pencadlys
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod | 649A2013 |
| Dyddiad | 28 Tachwedd 2013 |
| Tudalennau | 1 o 2 |

Annwyl Gynghorydd Edwards a Mr Thomas

# Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ond mae mwy o le i atgyfnerthu ei reolaethau ariannol

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2013. Daeth fy adroddiadau i'r casgliad bod y Datganiad Cyfrifon wedi'i baratoi i safon dda yn gyffredinol. Nodais un gwendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol a oedd yn berthnasol i'r Cyngor yn uniongyrchol ac yn ei rôl fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nid oedd data aelodaeth a ddarperir gan rai cyflogwyr i'w defnyddio yn y systemau cronfa pensiwn yn gyfredol, ac y gallai hyn gael effaith sylweddol ar y prisiad tair blynyddol a'r prisiadau IAS19 blynyddol a ddarperir gan yr actiwari.

Yn dilyn y gwaith cynharach a wnaed gan yr adran pensiynau, a wnaeth ddarganfod mater yn y lle cyntaf, rwyf wedi cael gwybod bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da i wella ansawdd data aelodaeth ar draws Cyrff Cyflogwyr er mwyn sicrhau bod yr actiwari yn cael data cadarn.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**
**28 Tachwedd 2013**